



24 Gorffennaf 2019

CRYNODEB Y WASG

R (ar gais Cymdeithas Cyflenwyr Cig Annibynnol ac un arall) (Apelyddion) v Asiantaeth Safonau Bwyd (Gwrthapelydd) [2019] UKSC 36
Ar apêl gan [2017] EWCA Civ 431

USTUSIAID: Arglwyddes Hale (Llwydd), Arglwydd Hodge, Arglwyddes Black, Arglwydd Lloyd-Jones, Arglwydd Sales

CEFNDIR I'R APÊL

Prynodd Cleveland Meat Company Ltd ('CMC') darw mewn arwerthiant. Cafodd ei basio i fod yn addas i'r lladdfa gan y Milfeddyg Swyddogol (OV) yn gweithio yn ei ladd-dy. Yn dilyn archwiliad post-mortem o'r carcass a thrafodaeth gydag Arolygydd Hylendid Cig, datganodd yr OV nad oedd y cig yn addas i'w fwyta gan bobl. Felly ni dderbyniodd nod iechyd.

Cafodd CMC gyngor gan lawfeddyg milfeddygol arall a herio barn yr OV. Dadleuodd ar achlysur anghydfod, a'i wrthodiad i ildio'r carcass yn wirfoddol, y byddai'n rhaid i'r OV ei atafaelu dan a 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 ('Deddf 1990') a'i ddwyn gerbron Ynad Heddwch i bennu a ddylid ei gondemni neu beidio. Ni dderbyniodd y gwrthapelydd ('yr FSA') ei fod angen defnyddio'r weithdrefn hon. Cynhaliodd y dylid gwaredu ar y carcass fel isgynnyrch anifeilaidd a chyhoeddi hysbysiad ar gyfer gwarediad o'r fath.

Cyhoeddodd CMC, ynghyd â'r Gymdeithas Cyflenwyr Cig Annibynnol, hawliad am adolygiad barnwrol i herio honiad yr FSA nad oedd yn rhaid iddo ddefnyddio'r weithdrefn a 9. Roeddynt yn honni yn y dewis amgen ei bod yn ddyletswydd ar y Deyrnas Unedig i ddarparu rhy fodd o herio penderfyniadau OV mewn achosion o'r fath. Methodd yr hawliad yn yr Uchel Lys a'r Llys Apêl.

Gerbron y Goruchaf Lys oedd tri phrif fater. Roedd y cyntaf yn fater o gyfraith ddomestig: os oedd y weithdrefn a 9 ar gael neu'n ofynnol dan yr amgylchiadau hyn. Roedd yr ail yn fater o os oedd defnyddio'r weithdrefn a 9 yn gydnaws gyda'r gyfundrefn diogelwch bwyd a sefydlir gan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd, yn benodol Rheoliadau (EC) 178/2002, 852/2004, 853/2004, 854/2004, 882/2004, a 1069/2009. Y trydydd mater oedd os yw rheoliad 882/2004 yn mandadu gweithdrefn apelio ac, os felly, a ddylai apêl o'r fath ganiatáu ar gyfer her i rinweddau ffeithiol llawn penderfyniad yr OV o ran os yw cwmpas cyfyngedig herio mewn adolygiad barnwrol yn ddigonol i gydymffurfio gyda gofynion y rheoliad.

DYFARNIAD

Mae'r Goruchaf Lys yn penderfynu cyfeirio dau gwestiwn at Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd. Sefydlir y cylch gorchwyl gan yr Arglwyddes Hale a'r Arglwydd Sales yn eu dyfarniad ar y cyd, ac mae'r Arglwydd Hodge, Arglwyddes Black ac Arglwydd Lloyd-Jones yn cytuno.

RHESYMAU DROS Y DYFARNIAD

I ddibenion yr atgyfeiriad hwn, gofynnir i Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd dybio bod dehongliad yr apelydd sy'n hawlio o adran 9 Deddf 1990 yn gywir, a bod gan Ynad Heddwch y pŵer i roi dyfarniad a allai arwain at ddyfarnu iawndal os yw'n ystyried y dylid fod wedi rhoi marc iach ar y carcass.

Er mwyn pennu'r apêl hwn, mae'r Llys yn cyfeirio'r cwestiynau canlynol i Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd [22]:

- (1) A yw Rheoliadau (EC) Rhifau 854 a 882 yn atal gweithdrefn ble yn unol ag adran 9 Deddf 1990 mae Ynad Heddwch yn penderfynu ar rinweddau'r achos ac ar sail tystiolaeth arbenigwyr a alwyd gan bob ochr ynghylch a yw carcass yn methu cydymffurfio gyda gofynion diogelwch bwyd?
- (2) A yw Rheoliad (EC) Rhif 882 yn mandadu hawl i apelio parthed penderfyniad OV dan erthygl 5.2 Rheoliad (EC) Rhif 854 bod cig carcass yn anaddas i'w fwyta gan bobl ac, os yw, pa ddull a ddylid ei ddilyn wrth adolygu rhinweddau penderfyniad yr OV ar apêl mewn achos o'r fath?

Mae cyfeiriadau mewn cromfachau sgwâr at baragraffau yn y dyfarniad

NODYN

Darperir y crynodeb hwn i gynorthwyo o ran deall penderfyniad y Llys. Nid yw'n rhan o'r rhesymau dros y penderfyniad. Dyfarniad llawn y Llys yw'r unig ddogfen awdurdodol. Mae dyfarniadau yn ddogfennau cyhoeddus ac ar gael ar:

<http://supremecourt.uk/decided-cases/index.html>